CYFRES A7


# amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Enw



DARLLENWCH
Genesis 27: 41-46
Genesis 28: 10-22



ADNOD ALLWEDDOL
Genesis 28: 16


## Gwers 2 Bywyd Jacob – Y Breuddwydiwr

Does neb yn hoffi rhywun sy'n twyllo, yn enwedig os yw'n effeithio arnon ni yn bersonol. Roedd Jacob wedi twyllo Esau er mwyn cael ei enedigaeth-fraint a'i fendith. Roedd Esau wedi gwylltio â Jacob.

**C Beth benderfynodd Esau ei wneud?** 1

Daeth Rebeca i wybod sut roedd Esau'n teimlo. Gwyddai am rywle diogel y gallai Jacob fynd iddo i guddio.

**C Ysgrifennwch lythyren gyntaf bob un o'r pethau hyn i gael gwybod i ble yr aeth ac at bwy.** 2






Roedd gan Rebeca frawd o'r enw __ __ __ __ __ a oedd yn byw yn __ __ __ __ __ .
Genesis 28: 10-22


Roedd hyn yn bell o gartref Jacob. Doedd e erioed wedi bod yno o'r blaen. Doedd e erioed wedi cwrdd â'i ewythr o'r blaen. Doedd ganddo ddim syniad pryd y byddai'n ddiogel iddo fynd yn ôl adref. Roedd y celwyddau a'r twyll wedi creu trafferth iddo. Roedd yn poeni'n ofnadwy am y dyfodol. Y noson honno, ar ôl teithio'n bell, gorweddodd Jacob i gysgu yn yr awyr agored.

**C Gwnewch bos yr Ysgol.** 6




1. Roedd y rhain yn mynd i fyny ac i lawr yr ysgol.
2. Gorweddodd Jacob i _ _ _ _ _.
3. Defnyddiodd _ _ _ _ _ _ fel gobennydd.
5. Roedd pen yr ysgol yn cyrraedd i'r _ _ _ _ _ _.
6. Safodd yr _ _ _ _ _ _ _ gerllaw Jacob.

Yna siaradodd Duw â Jacob ac addo pethau rhyfeddol iddo. Atgoffodd Duw Jacob y byddai'n cael llawer o ddisgynyddion ac y bydden nhw'n bwysig iawn. Rhoddodd addewid arbennig i Jacob hefyd, iddo ef ei hunan.




**C Lliwiwch bob siâp sydd â smotyn ynddo i gael gweld beth oedd yr addewid.** 2

Roedd Duw yn mynd i fod gyda Jacob mewn tair ffordd.


**C Ysgrifennwch y tair o adnod 15.**

| | |
|---|---|
| 1. "Cadwaf di | ." |
| 2. "Dof â thi nôl | ." |
| 3. "Ni fyddaf yn dy adael | ." |

3

Pen ddeffrodd Jacob, roedd wedi rhyfeddu, a braidd yn ofnus! Y noson gynt, roedd yn meddwl ei fod ar ei ben ei hunan ond nawr roedd yn gwybod yn wahanol.

**C Ysgrifennwch beth ddywedodd Jacob yn yr Adnod Allweddol.**



2

**Os byddwn ni'n ymddiried yn Iesu, bydd gyda ni bob amser. Ni fydd byth yn ein gadael ni..**

**C Ysgrifennwch yr addewid o ran olaf Hebreaid 13:5.**


"Ni'th adawaf

."

2

Roedd Duw yn dal i garu Jacob, er gwaetha'r ffordd roedd e wedi ymddwyn. Ni fyddai Duw yn ei adael. Mae hyn yn ein hatgoffa o gariad Duw aton ni. Rydyn ni wedi pechu ac wedi torri deddfau Duw ond mae'n dal i'n caru ac yn dymuno gwneud pethau mawr drosom, os gwnawn ni ymddiried yn ei Fab fel ein Gwaredwr. Fore trannoeth, cododd Jacob y garreg a fu o dan ei ben a'i gosod fel colofn. Arllwysodd olew drosti.

**C Ar y garreg, ysgrifennwch yr enw a roddodd Jacob ar y lle a thanlinellu ystyr cywir yr enw. (Darllenwch adnodau 17, 19, 22)**




**Ysgol i'r Nef**
**Lle Breuddwydion**
**Tŷ Dduw**

2

Wrth wneud hyn, roedd Jacob yn codi cofgolofn i ddigwyddiad pwysig yn ei fywyd pryd y dysgodd wers bwysig – bod Duw gydag ef bob amser.

**cyfanswm**